# PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 23.06.08

**Yn bresennol:**
**Y Cynghorwyr:** Louise Hughes, Eryl Jones-Williams, Evie Morgan Jones, J.R.Jones, W. Tudor Owen, Peter Read, Ieuan Roberts, W. Gareth Roberts a Gwilym O. Williams

**Hefyd yn Bresennol:** Gareth Jones (Uwch Reolwr Gweinyddol a Chyfreithiol), Amlyn ab Iorwerth (Rheolwr Trwyddedu) a Barbara Owen (Swyddog Pwyllgor)

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Robert Anderson a Dylan Edwards

## 1. CADEIRYDD

Etholwyd y Cynghorydd W. Tudor Owen yn Gadeirydd y pwyllgor hwn am y flwyddyn 2008/09

## 2. IS-GADEIRYDD

Etholwyd y Cynghorydd Eryl Jones-Williams yn Is-gadeirydd y pwyllgor hwn am y flwyddyn 2008/09

## 3. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd ar 19 Tachwedd 2007 fel rhai cywir.

**PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth**

## 4. COFNODION IS-BWYLLGORAU TRWYDDEDU CANOLOG:

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, cofnodion y cyfarfodydd canlynol:-

| | |
|---|---|
| 26 HYDREF 2007 | 21 TACHWEDD 2007 |
| 22 TACHWEDD 2007 | 20 RHAGFYR 2007 |
| 21 IONAWR 2008 | 24 IONAWR 2008 |
| 1 CHWEFROR 2008 | 11 MAWRTH 2008 |
| 11 EBRILL 2008 | 15 EBRILL 2008 |

**PENDERFYNWYD derbyn a nodi'r wybodaeth.**

## 5. CADEIRYDDIAETH YR IS-BWYLLGORAU TRWYDDEDU CANOLOG

Adroddodd yr Uwch Reolwr Gweinyddol a Chyfreithiol bod rheoliadau newydd a ddaeth i rym y llynedd yn gwahardd aelodau o Fwrdd y Cyngor rhag bod yn gadeirydd neu'n is-gadeirydd o bwyllgorau'r Cyngor yn gyffredinol. Gan fod cynifer o'r Is-bwyllgorau'n cael eu cynnal, ac amrywiaeth yn eu cynnwys, cynghorodd y byddai'n ddoeth cael cysondeb

yng nghadeiryddiaeth yr is-bwyllgorau, gan argymell penodi Cadeirydd, Is-gadeirydd, ac aelod profiadol arall o'r Pwyllgor Trwyddedu Canolog i gadeirio cyfarfodydd yr Is-bwyllgor. Cytunwyd i hyn ac etholwyd y Cynghorydd Gwilym O. Williams i fod y trydydd aelod o'r grwp sydd i gadeirio.
Mewn ymateb i sylw gan yr aelodau newydd yn mynegi dymuniad i ddod yn fwy cyfarwydd â'r deddfau Trwyddedu a Gamblo, adroddodd y Rheolwr Trwyddedu bod trefniadau ar y gweill i gynnig diwrnod o hyfforddiant ar y rheolau trwyddedu i aelodau newydd, mewn cydweithrediad â Chyngor Ynys Môn, ac mai'r gobaith yw cynnal yr hyfforddiant cyn diwedd y flwyddyn.

**PENDERFYNWYD y dylai un o'r Cynghorwyr canlynol gadeirio'r Is-bwyllgor Trwyddedu: Cadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu Canolog; Is-gadeirydd yr un pwyllgor; y Cynghorydd Gwilym O. Williams. Bydd dau aelod arall o'r Pwyllgor Trwyddedu Canolog yn cael eu dewis yn ôl y drefn arferol.**

## 6. FFIOEDD TACSIS

Cyflwynodd y Rheolwr Trwyddedu adroddiad y Pennaeth Gweinyddol a Gwarchod y Cyhoedd yn gofyn i aelodau'r pwyllgor ystyried codi'r prisiau a ganiateir i yrrwyr tacsi eu codi ar gwsmeriaid. Ni fu codiad yn y ffioedd ers 2005, oherwydd na dderbyniwyd cais oddi wrth y diwydiant, ond derbyniwyd sawl cais yn ddiweddar o ganlyniad i chwyddiant.

Trafodwyd y prisiau newydd a argymhellir, a nodwyd anfodlonrwydd i godi prisiau ar gyfer amser aros, bagiau ychwanegol na phersonau ychwanegol, er yn cytuno â gweddill yr argymhellion. Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod, cadarnhawyd na chodir cost am gario cwn tywys.

Adroddodd y Rheolwr Trwyddedu ar yr angen i hysbysebu'r newidiadau yn y wasg am fis cyn y caniateir iddynt ddod i rym.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r prisiau fel a ganlyn:**

| | **£** |
|---|---|
| **milltir gyntaf** | **2.50** |
| **pob milltir wedyn** | **2.20** |
| **amser aros** | **0.20** |
| **bagiau ychwanegol** | **0.30** |
| **personau ychwanegol** | **0.30** |
| **cludo anifeiliaid** | **1.20** |
| **baeddu cerbyd** | **45.00** |

## 7. FFIOEDD TRWYDDEDU 2007-08

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gweinyddol a Gwarchod y Cyhoedd yn manylu ar y ffioedd Trwyddedu arfaethedig ar gyfer 2008/09. Tynnodd y Rheolwr Trwyddedu sylw'r aelodau at gamgymeriad yn fersiwn Gymraeg yr adroddiad, lle dylid nodi nad yw'r Cyngor yn gwneud elw o Archwiliad nac ail brawf Mecanyddol. Adroddodd y Rheolwr Trwyddedu bod y codiad

arfaethedig oddeutu 2.5%, ac nad ydynt yn adlewyrchu unrhyw godiad cenedlaethol allai ddod i rym yn y dyfodol agos. Cadarnhaodd y swyddog yr angen i hysbysebu'r newidiadau yn y wasg am fis cyn y daw'r ffioedd newydd i rym.

**PENDERFYNWYD mabwysiadau'r ffioedd ar gyfer 2008-09.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10:00a.m. a daeth i ben am 10.30a.m.